

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 10eg Ebrill 2017 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Gadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, C. Crowley,

Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Is Gadeirydd Eleri Puw,(Mamolaeth)

Datgan Diddordeb: Dim

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd Wendy Whitby, balch o'i gweld yn ol

Derbyniwyd confusion Mawrth 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd,

1. Cae Chwarae: Trafodwyd prisiau a dderbyniwyd am fyrddau picnic, gan gofio bod addewid o £1,000.00 yn dod yn rhodd, cafwyd cynnig ein bod yn archebu tri, un oedolyn, un plentyn ac un ym cymryd cadair olwyn, os gallem gael gwell pris, erbyn ysgrifennu hwn mi oedd y Clerc wedi cael 5% o ddiscownt a sylwer nad oes cost cludiant, felly archebwyd. Angen atgoffa Justin i drwsio y sedd ac hefyd côt o baint i'r fainc a elwir yn un Lewis Lewis.
2. Mynwent: Nodwyd bod cliced gât yr Eglwys wedi ei gosod, tynwyd sylw bod eisiau ochri ymyl y llwybyr o'r gât at ddrws yr Eglwys. Pasiwyd i wneud ymholiadau.
3. Llwybrau: Derbyniwyd llythyr gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd £300 o ad daliad at ein llwybrau am 2017 /18. Trafodwyd ymateb Liz Haynes at llwybyr Cwrt i Meriafel. Pasiwyd i ni ei chwrrd ar y safle ar ol y Pasg, Cyng Gareth Evans yn fodlon ei chyfarfod. Diolch iddo.
4. Cyng. Gwynedd: Adroddodd bod etholiad yn Llanfihangel / Brynchrug ar y 4ydd o Fai. Yr oedd wedi bod yng nghyfarfod ag Arfon Jones , adroddodd bod esboniad am cau cellau yn Nolgellau, bod dim meddyg ar gael pedwar awr ar hugain, hefyd nid oedd gofal menyw ar gael bob am ser.
Trwy tref niant gallant ddefnyddio Aberystwyth neu Caernarfon. Diolch i'r Cyng. Beth Lawton.
5. Etholiad Cyngor Cymuned: Nodwyd gan y Clerc bod yr wyth sedd wedi ei lenwi.
6. Toiledau Cyhoeddus: Pasiwyd i lofnodi cytundeb talu y £2,000.00 ar ol i'r Clerc esbonio mai y toiledau oedd ar y A470 oedd yn cael gostyniad, hyn trwy law Cyngor Gwynedd a Asiantaeth Cyffyrdd.
7. Archwiliad Mewnol: Mehefin 12fed
8. Ysiwriant: Pasiwyd i dalu ond holi yn gyntaf os y gallem gael gostyngiad. Nid oedd newid yn y Premium ond £2 yn y treth felly talu.
9. Parc Eryri: Derbyniwyd dyddiadau cynnal cyfarfodydd Mehefin 13eg 19eg neu 20fed. Manylion pellach I ddilyn.
10. Derbyniwyd lythyr o ddiolch gan Clwb Ffermwyr Ieuanc.
11. Derbyniwyd gan Gyngor Gwynedd – holiadur beth sydd'n Bwysig – pasiwyd yw lenwi.
12. Taliadau: Zurich Municipal ysiwriant £311.31 siec 894

YMDDIRIEDOLAETH - MARI JONES:

Adroddodd Cyng. Gareth Evans ei fod yn cyfarfod Jones & Jones i drafod beth oedd angen gwneud. Diolch iddo.

Derbyniwyd drwy law Gwion Lewis hen lyfrau banc ayb. Pasiwyd i gael gwared ohonynt.

Cyfarfod Nesaf Nos Lun 8fed Ebrill 2017 – Blynnyddol a Chyffredin am 7 o'r gloch